
ADNABOD AWDUR

# Michelle Briscombe






**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Caerdydd, ond symudais i'r Barri pan oeddwn yn 12 oed.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Caerdydd a'r Barri.

**Beth oedd y peth gorau/gwaethaf am eich ysgol chi?**
Y peth gorau am yr ysgol oedd dysgu a bod gyda fy ffrindiau bob dydd. Pan oeddwn yn yr ysgol gynradd, fi oedd yng ngofal llyfrgell yr ysgol, ac roedd hyn yn golygu fy mod i'n ceisio darllen cynifer o'r llyfrau ag y medrwn. Doedd dim byd gwael am ysgol, ond efallai nad oedd cinio ysgol yn yr 1980au mor flasus â chinio ysgol y dyddiau hyn.

**Beth oeddech chi am fod ar ôl tyfu fyny?**
Roeddwn am fod yn actores, yn enwedig actores mewn dramâu Shakespeare.

**Beth yw eich diddordebau?**
Darllen (yn amlwg), a dwi'n mwynhau cerdded a threulio amser yng nghefn gwlad.

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech chi'n blentyn?**
Dwi am enwi tri llyfr: *The Tale of Mrs Tiggy-Winkle* gan Beatrix Potter pan oeddwn yn ifanc iawn; *The Wind in the Willows* pan oeddwn yn hŷn; a phan oeddwn yn 14 oed darllenais *Wuthering Heights* – y llyfr cyntaf i wneud i fi grio.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am fod yn awdur?**
Roeddwn wedi bod yn ysgrifennu straeon ers tro, ond dechreuais feddwl o ddifrif am ddod yn awdur ar ôl i fy mab a fy merch gael eu geni. Roeddwn i am iddyn nhw ddarllen stori roeddwn i wedi'i hysgrifennu.

**Oes yna themâu arbennig sy'n apelio atoch?**
Dwi'n mwynhau straeon ysbryd hanesyddol, ond dwi hefyd yn hoffi ffantasi a ffuglen wyddonol.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sydd am fod yn awdur?**
Darllenwch, darllenwch, darllenwch! Cariwch lyfr nodiadau gyda chi i bobman, rhag ofn i chi gael ysbrydoliaeth yn annisgwyl.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*The Tale of Mrs Tiggy-Winkle.*

**Hoff gymeriad o lyfr?**
*Mrs Tiggy-Winkle*.

**Hoff le i ysgrifennu?**
Wrth fy nesg, yn fy ystafell wely.

**Hoff fwyd?**
Salad Groegaidd gyda llwyth o gaws feta.

**Superpower o ddewis?**
Ga i ddewis dau? Y gallu i hedfan a'r gallu i fod yn anweledig.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Fy mhlant a fy ngŵr.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Actores mewn dramâu Shakespeare.

**Top tip i awduron y dyfodol**
Darllenwch, darllenwch, darllenwch!